

Gofal cyfyngedig

“Ond yr oedd y Phariseiaid a’r ysgrifenyddion yn grwgnach ymhlith ei gilydd, gan ddweud, ‘Y mae hwn yn croesawu pechaduriaid ac yn cydfwyta gyda hwy.’” (adn. 2)

Beth am ddarllen Luc 15:1–10 ac yna myfyrio

Fel y nodwyd, bu yna gryn wrthwynebiad i Iesu oherwydd y modd y byddai’n mynnu fod Duw yn gofalu, nid yn unig am yr Iddewon, ond am bawb ymhobman. Pan ofynnodd y cyfreithiwr i Iesu, “Pwy yw fy nghymydog?” (Luc 10:9), atebodd ef drwy adrodd dameg oedd yn cymryd y syniad Iddewig am gymydog (sef rhywun o’r un genedl â chi) i mewn i ddimensiwn cwbl newydd, hynny yw, gall cymydog fod yn unrhyw un, o’r un genedl neu o genedl arall.

Sylwch pa mor glyfar y mae Iesu, wrth gychwyn ei ddameg, yn gofyn cwestiwn i’r un oedd wedi ei holi: “P’run o’r rhain wyt ti yn tybied oedd yn gymydog i’r gŵr a syrthiodd ymhlith lladron?” (Luc 10:36) Doedd ond un ateb y medrai y cyfreithiwr ei roi: “Yr un a ddangosodd drugaredd arno” (Luc 10:37). Mae’r ddameg yma wedi setlo’r diffiniad o ‘Pwy yw ein cymydog’ unwaith ac am byth – unrhyw un sydd mewn angen. Yr wyf am honni ein bod yn anaeddfed iawn fel Cristnogion os nad ydym yn gweld hyn ac yn gweithredu ar hyn.

Er bod yna lawer iawn o ofal yn y byd, eto mae’r rhan fwyaf o’r gofal yma yn gyfyngedig iawn, yn gyfyngedig i’n teulu ein hunain, i’n cenedl ein hunain, i gylch ein cyfeillion ein hunain. Dywed un awdur cyfoes: “Mae’r byd yn dioddef o ofal cyfyngedig, dosbarth am ddosbarth, cenedl am genedl. Yr hyn sydd ei angen yw gofal anghyfyngedig, pobl sydd yn gofalu nid yn unig am bobl sydd yr un fath â nhw, ond hefyd am y bobl sydd yn wahanol iddynt. Mi fyddai’r enw ‘Cymdeithas Gofal Cyflawn’ yn enw da ar yr Eglwys. Ond a ydym yn gwireddu’r gofal cyflawn yma? Fe welwch Gristnogion yn gofalu am Gristnogion eraill yn unig. Maent yn gwadu hanfod beth yw bod yn eglwys. Bu i Iesu rannu ei gariad â phawb heb gymryd i ystyriaeth y dosbarth na’r genedl y perthynent iddynt. Felly mae’n rhaid i ni ofalu.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 7:36–50; 10:25–37; 16:19–31

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd cymhelliad y Samariad?
2. Beth oedd cymhellion y rhai oedd yn anwybyddu’r angen?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i weld dy fod am i mi berthyn i ‘gymdeithas sydd yn gofalu yn gyflawn’. Cynorthwya fi i wneud dy bwrpas di yn bwrpas i mi ac i’th Eglwys di. Yn enw Iesu. Amen.